UK Government
Llywodraeth y DU

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cronfa Adfywio Cymunedol y DU

## Gwahoddiad i Gyflwyno Cynigion Prosiect

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn am geisiadau gan sefydliadau sy'n dymuno cyflwyno gweithgaredd fel rhan o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Darllenwch Brosbectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU a Nodyn Technegol Cronfa Gymunedol y DU ar gyfer Ymgeiswyr a Chyflawnwyr Prosiect cyn dechrau gweithio ar gynnig. Maent ar gael yma.

Mae'r Prosbectws yn darparu gwybodaeth fanwl am amcanion y Gronfa, y mathau o brosiectau y mae'n bwriadu eu cefnogi a sut mae'n gweithredu, gan gynnwys y meini prawf proses a dethol a ddefnyddir i asesu cynigion.

Bydd cynigion llwyddiannus Cronfa Adfywio Cymunedol y DU ar gyfer 2021/22 yn unig a rhaid i'r gweithgaredd ddod i ben ym mis Mawrth 2022.

## Cefndir

Er mwyn helpu ardaloedd lleol i baratoi ar gyfer cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae Llywodraeth y DU yn darparu cyllid yn 2021/22 trwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU. Mae gennym ddiddordeb mewn cynigion sy'n adeiladu ar fewnwelediad a gwybodaeth leol, a chynigion prosiect sy'n cyd-fynd â chynlluniau strategol hirdymor ar gyfer twf lleol, yn targedu'r bobl fwyaf anghenus ac yn cefnogi adfywio cymunedol. Yn ogystal, dylai prosiectau ddangos sut y maent yn ategu darpariaeth genedlaethol a lleol arall. Ffocws y Gronfa hon yw cefnogi arloesedd a syniadau newydd yn y meysydd hyn, gan fuddsoddi mewn peilotiaid sy'n tynnu ar fewnwelediadau lleol ac a fydd yn helpu lleoedd i baratoi ar gyfer cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn 2022.

Mae Cyngor Gwynedd wedi'i ddynodi'n awdurdod arweiniol gan Lywodraeth y DU. Fel awdurdod arweiniol, mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am:

- cyhoeddi'r gwahoddiad hwn
- derbyn cynigion
- dewis y cynigion a anfonir at Lywodraeth y DU i'w hystyried
- talu grantiau i brosiectau llwyddiannus a rheoli eu perfformiad

Gellir gweld manylion llawn rôl awdurdodau arweiniol ym Mhrosbectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.

## Pa fath o gynigion rydym yn chwilio amdanynt?

Rhaid i brosiectau cyflenwi gweithgaredd sy'n unol â Phrosbectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU ac alinio ag o leiaf un o'r blaenoriaethau buddsoddi hyn:

- Buddsoddi mewn sgiliau
- Buddsoddiad ar gyfer busnes lleol
- Buddsoddi mewn cymunedau a lleoedd

- Cefnogi pobl i gyflogaeth

Nid oes unrhyw ddyraniadau ariannol i'r blaenoriaethau hyn.

Mae Llywodraeth y DU yn rhagweld cefnogi ystod o brosiectau yn ôl thema a maint, ond anogir ymgeiswyr i sicrhau'r effaith a'r cyflawniad mwyaf posibl trwy brosiectau mwy (£500,000 +) lle mae hyn yn bosibl.

Gan fod 90% o'r cyllid sydd ar gael trwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn gyllid refeniw a dim ond ar gael yn 2021/22, dylai prosiectau fod yn seiliedig ar refeniw yn bennaf, neu'n gyfan gwbl. Ni chefnogir prosiectau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar adeiladu neu adnewyddu mawr o adeiladau, prynu tir neu brynu darnau mawr o offer.

## Blaenoriaethau Lleol

Wrth ddewis y cynigion a fydd yn cael eu hanfon at Lywodraeth y DU i'w hystyried, bydd, Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu'r cynigion sydd â'r potensial mwyaf i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau twf lleol allweddo fel y amlinellir yng Nghynllun y Cyngor, Cynllun Eryri (os yn berthnasol) a Chais Twf Gogledd Cymru.l.

Cwmpas Daearyddol - dylai prosiectau fod o fudd i'r lleoedd canlynol:

- Gwynedd.

Mae Cyngor Gwynedd yn hapus i ystyried prosiectau sy'n gweithredu ar draws mwy nac un ardal awdurdod lleol.

## Sut y bydd Cynigion yn cael eu hasesu

Fel yr awdurdod arweiniol, bydd Cyngor Gwynedd yn asesu'r holl gynigion a gyflwynwyd. Asesir cynigion yn erbyn:

- y meini prawf porth a nodir ym Mhrosbectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU - mae ceisiadau sy'n methu â chwrdd â'r meini prawf hyn yn gymorth anghymwys i gymorth a byddant yn cael eu gwrthod
- i ba raddau y maent yn cwrdd ag amcanion Cronfa Adfywio Cymunedol y DU
- i ba raddau y byddai cynigion yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau twf a chymorth cyflogaeth lleol

Yn dilyn asesiad, bydd Cyngor Gwynedd yn cyflwyno'r cynigion cymwys hynny sy'n cwrdd yn gryf â Chronfa Adfywio Cymunedol y DU a blaenoriaethau lleol i Lywodraeth y DU i'w hystyried, hyd at uchafswm o £3m y lle.

Bydd Llywodraeth y DU yn asesu pob cais a gyflwynir gan awdurdodau arweiniol yn erbyn y meini prawf a nodir ym Mhrosbectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi canlyniad y broses asesu o ddiwedd mis Gorffennaf 2021 ymlaen.

Bydd Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i gytundeb cyllido gyda chynigwyr llwyddiannus.

## Cyflwyno Cynnig

Rhaid cyflwyno cynigion drwy ddefnyddio Ffurflen Gais Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, sydd ar gael yma. Ni dderbynnir cynigion a gyflwynir mewn unrhyw fformat arall.

Rhaid i gynigion a gyflwynir i Cyngor Gwynedd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn: CronfaAdfywioCymunedolDU@gwynedd.llyw.cymru.

Rhaid cyflwyno cynigion erbyn hanner dydd (12:00pm), dydd Gwener, yr 28ain o Fai 2021.

Mae Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn broses gystadleuol a ni fydd Cyngor Gwynedd a Llywodraeth y DU yn dechrau trafodaethau gyda chynigwyr.